DIWEDDARIAD GAN

# SIÂN GWENLLIAN AS

YR AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

MIS RHAGFYR 2024



# O gwmpas Arfon

Mae mynychu digwyddiadau, cyfarfod mudiadau a grwpiau, cynnal cymorthfeydd cymunedol a sgwrsio efo etholwyr yn eu milltir sgwâr yn rhan holl bwysig o'm gwaith y tu hwnt i'r Senedd. Dyma flas o'r ymgysylltu cymunedol ddigwyddodd yn ystod y mis.



Cynrychioli etholwyr Arfon yng ngwasanaeth Sul y Cofio Bangor




Murlun 'Byddwch yn Garedig' ym Mangor.



Cyfle i gefnogi un o fusnesau gwych Stryd Fawr Bangor, sef Blue Sky.




Ymweld ag elusen Samariaid ym Mangor i glywed am eu gwaith gwych.



Cymhorthfa gyda'r Cynghorydd Craig ab Iago ym Mhenygroes.



Arwain trafodaeth ynglŷn â ffilm am apartheid yn Ne Affrica. Digwyddiad yn Theatr Seilo, Caernarfon.



Siân yn agoriad Tŷ Gwyrddfai, Penygroes. Hwb Datgarboneiddio cyntaf o'i fath yn y DU



Taith o ffatri bwyd ci Pero ym Mhenygroes.

# Diogelu Swyddfa Bost Caernarfon

Mae Siân Gwenllian AS, Liz Saville Roberts AS, Llyr Gruffydd AS a'r Cyng. Cai Larsen wedi ysgrifennu at y Swyddfa Bost yn dweud wrthynt ail-ystyried unrhyw fwriad i gau cangen Caernarfon.

Rydym wedi dechrau deiseb ac mae wedi denu dros 1,000 o lofnodion hyd yn hyn. Gallwch ei arwyddo drwy sganio'r côd QR ar y dudalen hon, neu drwy ddod i swyddfa'r Blaid ar Stryd y Castell yng Nghaernarfon.

Mae etholwyr hŷn, busnesau bach a phobl sy'n methu teithio yn ddibynnol ar y swyddfa. Mae'n tynnu pobol i'r Maes mewn cyfnod lle mae canol trefi'n dioddef. Mi ddylai'r Swyddfa Bost fod yn gweithio i adfer ffydd y cyhoedd ar ôl sgandal Horizon, a dydi cau canghennau fel un Caernarfon ddim am wneud hynny.






POST OFFICE CLOSURE WOULD BE 'FINAL NAIL IN COFFIN' FOR TOWN

By DALE SPRIDGEON


Local Democracy Reporter

Politicians write joint letter urging PO to rethink decision

FEARS have been raised that the potential closure of a Post Office branch could be the "final nail in the coffin" for a town centre.

# Gwaith achos

Mae'r achosion y mae fy swyddfa yn ymgymryd â nhw yn amrywio, ond mae themâu amlwg gyda galw mawr am gymorth ym maes tai a iechyd yn gyson. Dyma grynodeb o waith achos y mis a aeth heibio.



# Pigion o'r Senedd

**Rali Addysg**
Yn ddiweddar mynychais rali gyda chynrychiolwyr undebau addysg yn galw am gyllid teg yng nghwmni Cefin Campbell AS, llefarydd Plaid Cymru ar Addysg.




Mynychu rali gyda chynrychiolwyr undebau addysg yn galw am gyllid teg


**Uned Fasgiwlar Gogledd Cymru**
Rwyf wedi ymateb i gyhoeddiad a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am uned fasgiwlar gogledd Cymru. Pan gyhoeddwyd y byddai'r uned fasgiwlar yn cael ei symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Glan Clwyd fe wnaethon ni rybuddio y byddai'n arwain at danseilio gwasanaethau i gleifion yn ngogledd orllewin Cymru. Fe gollon ni'r arbenigedd oedd ym Mangor, ac fe wireddwyd ein proffwydoliaeth. Yn yr achosion mwyaf difrifol, mae'r sefyllfa wedi dinistrio bywydau yn fy etholaeth ac wedi arwain at farwolaethau. A rŵan mae'r cyhoeddiad ynglŷn â stopio'r llawdriniaethau mwyaf difrifol yn Ysbyty Glan Clwyd yn golygu nad oes darpariaeth ar gyfer y math hwnnw o driniaeth yng ngogledd Cymru o gwbl.




Ymateb i gyhoeddiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am uned fasgiwlar gogledd Cymru

Unwaith eto mae gwasanaethau yn symud ymhellach oddi wrth y bobl y maen nhw i fod i'w helpu. Gallai lleoli gwasanaethau hanfodol mor bell o'r cymunedau hyn arwain at ganlyniadau trychinebus. Dwi'n annog y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r sefyllfa ar frys.

**Pôl Piniwn**
Yn ddiweddar cyhoeddwyd pôl piniwn hanesyddol sy'n rhoi Plaid Cymru ar y blaen i Lafur. Gadewch i ni uno y tu ôl i weledigaeth obeithiol a blaengar ar gyfer Cymru.



## Pigion o'r dyddiadur

| | |
|---|---|
| 13 Tachwedd | Holi'r Prif Weinidog ynglŷn â Chymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 i ymgorffori ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn dilyn argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg |
| 15 Tachwedd | Cyfarfod gyda chynghorwyr Plaid Cymru Gwynedd |
| 15 Tachwedd | Agoriad Tŷ Gwyrddfai. Hwb Datgarboneiddio cyntaf o'i fath yn y DU. |
| 15 Tachwedd | Cyfarfod gyda swyddogion y Bwrdd Iechyd ynglŷn a gwasanaethau fasgiwlar yn cael eu symud i Ysbyty Stoke. |
| 15 Tachwedd | Cyfarfod yn Abergwyngregyn i darfod problemau parcio |
| 18 Tachwedd | Gwylnos yng Ngolau Canhwyllau ar risiau'r Senedd er mwyn dangos undod â dioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn merched ar draws y byd |
| 25 Tachwedd | Cyfarfod gyda'r Welsh Cladiators – mudiad sy'n ceisio sicrhau nad yw'r hyn ddigwyddodd yn Grenfell yn digwydd eto |
| 26 Tachwedd | Siarad yn y ddadl ar y Bil Llety Ymwelwyr |
| 27 Tachwedd | Pwyllgor Llywodraeth Leol a Tai – trafod cynghorau cymuned |
| 28 Tachwedd | Cyfarfod gydag arweinwyr cynghorau i drafod blaenoriaethau polisi |
| 28 Tachwedd | Mynychu cyfarfod - Rhannu gweledigaeth pobl ifanc am ddyfodol economaidd gwell ym Methesda a Blaenau Ffestiniog |
| 29 Tachwedd | Ymweliad â Samariaid Gogledd Orllewin Cymru, Parc Menai sy'n dathlu 40 mlynedd |
| 29 Tachwedd | Arwain trafodaeth ynglŷn â ffilm am apartheid yn Ne Affrica. Digwyddiad yn Theatr Seilo, Caernarfon. |

## Cysylltwch


siangwenllian.cymru

SianGwenllianASMS

@siangwenfelin

@sian_gwenllian_plaid